

Mae Addysg Rhan Amser yn Bwysig: Addysg uwch sy'n gweithio i Gymru

Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau'r Brifysgol Agored yng Nghymru ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016 a thu hwnt. Gall addysg uwch rhan amser a chyfleoedd dysgu hyblyg newid bywydau a gwella'r economi yng Nghymru. Maent hefyd yn hanfodol o ran ehangu mynediad i addysg uwch a gwella symudedd cymdeithasol. Wrth i Gymru wynebu heriau economaidd a phrinder sgiliau, mae mynediad i addysg, drwy ddarpariaeth hyblyg, yn galluogi unigolion i wella eu sgiliau neu i ddysgu sgiliau newydd a chyflawni eu potensial.

Rydym wedi nodi saith maes allweddol lle y dylid gweithredu er mwyn cefnogi addysg uwch rhan amser:

1. Parch cydradd i addysg uwch llawn amser ac addysg uwch rhan amser
2. System gyllido gynaliadwy
3. Ehangu cyfleoedd i astudio'n rhan amser mewn cyflogaeth
4. Cefnogaeth i fentrau ehangu mynediad
5. Gwella gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar opsiynau astudio'n rhan amser
6. Benthyciadau ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig
7. Annog arloesedd digidol mewn addysg uwch a dysgu ar-lein

Mae'r Adolygiad o drefniadau cyllido addysg uwch a chymorth myfyrwyr ('Adolygiad Diamond') yn cynnig cyfle i ddatblygu polisi mewn sawl un o'r meysydd hyn.

Rydym yn cydnabod yr heriau economaidd y mae Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac yn ymwybodol bod yn rhaid i unrhyw newidiadau polisi anelu at gynnig arbedion cost neu fod yn gost-niwtral o leiaf. Fodd bynnag, credwn fod buddsoddi mewn addysg rhan amser i oedolion a chyfleoedd dysgu gydol oes yn cynnig buddiannau economaidd, cymdeithasol ac iechyd i Gymru. Mae ein hawgrymiadau polisi yn ceisio ailgydbwysu buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg uwch er budd myfyrwyr AU rhan amser nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn awyddus i'r buddiannau cost y gellid eu gwireddu mewn meysydd eraill (e.e. iechyd) gael eu hystyried ar ôl buddsoddi mewn addysg i oedolion.

Addysg uwch rhan amser yng Nghymru

Mae addysg uwch yn rhan angenrheidiol a hanfodol o economi a chymdeithas fodern. Ei phrif ddiben yw creu, meithrin a lledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl, gan arwain at effeithiau buddiol i gymdeithas ac unigolion sy'n economaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn ddeallusol. Er mwyn sicrhau bod addysgu uwch o fudd i bawb, mae angen dull gweithredu mewn perthynas â dysgu sy'n cynnwys pob oedran. Mae angen i'r dull gweithredu hwn hefyd hwyluso cyfleoedd i ehangu mynediad. Yn ei dro, mae hyn yn gofyn am newid o unrhyw ddull darparu 'awtomatig' yn seiliedig ar astudio'n llawn amser. Dylai AU gynnwys darpariaeth lle nad yw'r dull astudio yn bwysicach na'r cyfle i ymuno ag AU a chael budd ohoni.

Mae dros 40,000 o fyfyrwyr rhan amser yn astudio ar lefel addysg uwch yng Nghymru. Mae tua 30,000 o'r rhain yn astudio ar lefel israddedig¹. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio'n rhan amser ym maes AU yng Nghymru yn lleihau, a chafwyd gostyngiad o 11% yn nifer y myfyrwyr israddedig rhan amser rhwng 2009/10 a 2013/14.² Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad cynddrwg â'r gostyngiad yn Lloegr lle y gostyngodd nifer yr israddedigion rhan amser 44% yn ystod yr un cyfnod.³ Yn rhannol, gellir priodoli hyn i'r cynnydd mewn ffioedd rhan amser a gafwyd yn Lloegr tra bod sefydliadau yng Nghymru wedi cael cyfarwyddyd i gadw ffioedd yn is a lle y cynhaliwyd y grant addysgu rhan amser (a ddosberthir gan CCAUC i sefydliadau) er mwyn cefnogi hyn. Fodd bynnag, tynnwyd cyllid grant arall megis cyllid strategaeth wedi'i dargedu at ehangu mynediad yn ôl, a disgwylir i sefydliadau ddarparu cyllid ar gyfer eu darpariaeth rhan amser gan ddefnyddio eu hincwm ffioedd llawn amser, ond ni chynigir llawer o gymhelliant iddynt wneud hynny. Mae'n hanfodol bod Cymru yn dysgu'r gwersi gan Loegr ac yn parhau i annog a chefnogi sefydliadau i gadw ffioedd rhan amser yn isel ac i annog darpariaeth rhan amser.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Sefydlwyd Y Brifysgol Agored yn 1969 a chofrestrodd y myfyrwyr cyntaf yn 1971. Mae'n arweinydd byd-eang o ran cynnig cyfleoedd dysgu o bell hyblyg ac arloesol ar lefel addysg uwch (AU). Y Brifysgol Agored yng Nghymru yw'r darparwr astudiaethau israddedig rhan amser mwyaf yng Nghymru.

Mae dros 7,000 o fyfyrwyr dros Gymru gyfan yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac maent wedi'u cofrestru ar oddeutu 10,000 o fodiwlau. Mae myfyrwyr Y Brifysgol Agored ym mhob un o etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn 2015, am yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol, daeth Y Brifysgol Agored i'r brig yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru am 'fodddhad myfyrwyr cyffredinol'.

Fel arweinydd byd-eang ym maes technoleg addysg, mae ein portffolio 'cynnwys agored' eang yn cynnwys unedau astudio am ddim ar y llwyfan dysgu am ddim ar-lein [OpenLearn](#) (gan gynnwys llawer o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â Chymru a'n llwyfan Cymraeg [OpenLean Cymru](#)) a chynnwys sylweddol ar lwyfannau eraill megis YouTube ac ar iTunesU lle mae ein deunydd wedi cael ei lawrlwytho dros 70 miliwn o weithiau.

Mae'r buddiannau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau dysgu ac addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru, ynghyd â'r buddiannau sy'n deillio o weithgareddau eraill ac effeithiau maint a chydweiddiad unigryw'r sefydliad, yn fuddiannau cymdeithasol. Amcangyfrifodd astudiaeth gan London Economics bod cyfanswm yr effaith economaidd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Brifysgol Agored yng Nghymru tua

¹ Data HESA <https://www.hesa.ac.uk/> tabl 1a HE student enrolments by location of HE provider, mode of study, domicile and level of study 2009/10 to 2013/14

² Data HESA <https://www.hesa.ac.uk/content/view/1973/239/> All students by HE institution, level of study, mode of study and domicile 2009/10

Data HESA <https://www.hesa.ac.uk/content/view/1973/239/> HE students by HE provider, level of study, mode of study and domicile 2013/14

³ Ibid.

£137miliwn yn 2012/13 ar ôl ystyried y gost i'r trysorlys. Grant CCAUC i'r Brifysgol Agored yn y flwyddyn honno oedd £11miliwn.

Mae Addysg Rhan Amser yn Bwysig - Saith maes gweithredu:

1. Parch cydradd i addysg uwch llawn amser ac addysg uwch rhan amser

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi croesawu'r dull pob oedran a fu'n rhan amlwg o bolisi AU Llywodraeth Cymru ers 1999⁴. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu diffyg cydbwysedd rhwng y buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg uwch llawn amser ac addysg uwch rhan amser. Mae angen datblygu polisi yn seiliedig ar y ddealltwriaeth nad dim ond fersiwn fwy estynedig neu arafach o astudio'n llawn amser yw AU rhan amser. Rhaid i benderfyniadau polisi a chyllido gydnabod sut mae astudiaethau rhan amser yn cefnogi'r agenda addysg ehangach, yr agenda cyfiawnder cymdeithasol a'r agenda economaidd mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Rydym yn credu yn y canlynol

- Dylai fod gan unigolion yr hawl i astudio'n rhan amser os byddant yn awyddus i wneud hynny ac ni ddylent fod dan anfantais am eu bod yn dewis gwneud hynny.
- Bydd system AU hygyrch i bawb (ni waeth beth fo'u hoedran, amgylchiadau neu allu i dalu) o fudd i economi Cymru ac i'r gymdeithas gyfan.
- Mae angen gweithredu i ddiogelu a gwella'r ddarpariaeth cyfleoedd astudio'n rhan amser yng Nghymru.

Rydym yn argymhell y canlynol

- Dylid datblygu polisi addysg uwch a system gyllido gysylltiedig sy'n sicrhau parch cydradd i ddulliau astudio llawn amser a rhan amser. Nid yw hyn yn golygu defnyddio'r un system ar gyfer y ddau, ond yn hytrach, mae'n gofyn am gyfleoedd i ystyried anghenion polisi a chymorth gwahanol y ddau ddull astudio er mwyn sicrhau y darperir cefnogaeth ac adnoddau ar gyfer y ddau mewn modd teg.
- Dylid gwerthuso penderfyniadau polisi er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar fyfyrwyr rhan amser neu ddarpar fyfyrwyr rhan amser.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnal yr ymrwymiad i system credydau hyblyg gan gynnwys y gallu i drosglwyddo credydau er mwyn sicrhau hyblygrwydd yn y system AU.

2. System gyllido gynaliadwy

Fel pob maes buddsoddi cyhoeddus, mae'r gyllideb addysg uwch yn gyfyngedig a'r newidiadau a wnaed i'r trefniadau ar gyfer cyllido a darparu cymorth i israddedigion AU llawn amser yn 2012 - yn arbennig y grant ffioedd hael nad yw'n gysylltiedig â

⁴Gweler: Cynulliad Cenedlaethol, *Y wlad sy'n dysgu: dogfen ymbaratoi* (2001), ar gael yn <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/learning-country/?lang=cy>; Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Y wlad sy'n dysgu: gweledigaeth ar waith* (2006), ar gael yn <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/learningcountry/?lang=cy>; Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Er Mwyn Ein Dyfodol: Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr 21ain Ganrif* (2009), ar gael yn <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/forourfuture/?skip=1&lang=cy>; Llywodraeth Cymru, *Datganiad polisi ar addysg uwch*, (2013), ar gael yn <http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/policy-statement/?lang=cy>

phrawf modd i fyfyrwyr israddedig llawn amser - a bennodd faint o gyllid oedd yn weddill i gefnogi AU rhan amser. Gweithredwyd rhai newidiadau o fewn y system gyllido rhan amser yn 2014 - yn bennaf, cyflwyno benthyciadau i fyfyrwyr israddedig rhan amser sy'n bodloni meini prawf penodol. Fodd bynnag, ni chredwn fod y newidiadau hyn yn cynnig trefniant effeithiol na sefydlog o ran cyllido AU rhan amser yn y dyfodol yng Nghymru. Mae angen setliad ehangach, mwy parhaol a thecach er mwyn sicrhau bod dyfodol AU rhan amser yn gynaliadwy ac er mwyn sicrhau system AU wirioneddol hygrych yng Nghymru.

Rydym yn credu yn y canlynol

- Mae'r system gyllido bresennol yn fwy buddiol i fyfyrwyr ifancach a'r rheini sy'n awyddus i astudio'n llawn amser.
- Mae'r system bresennol ar gyfer cyllido addysg uwch rhan amser yn rhoi darpariaeth rhan amser yn y fantol a gall arwain at ostyngiad pellach yn nifer y myfyrwyr rhan amser.
- Nid yw'r system gyllido bresennol yn cynnig digon o gymhelliant i waith wedi'i dargedu at ehangu mynediad nac yn cynnig cymorth ar gyfer gwaith o'r fath.
- Mae gwaith Adolygiad Diamond yn hanfodol wrth symud tuag at system gyllido deg a chynaliadwy ar gyfer AU rhan amser.
- Mae cyfyngiadau'r Cymhwyster Cyfwerth neu Is (ELQ) sy'n gysylltiedig â chael benthyciadau rhan amser yn ffactor sy'n cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr rhan amser. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn galluogi unigolion i wella eu sgiliau a dysgu sgiliau newydd fel sydd eu hangen ar economi Cymru er mwyn i ni ddiwallu ein hanghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn argymhell y canlynol

- Dylid rhoi datrysiad cyllido cynaliadwy hyblyg ar waith ar gyfer AU fel mater o flaenoriaeth (cyn gynted â phosibl yn dilyn adroddiad Adolygiad Diamond) yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru⁵.
- Dylid ailgydbwysu'r buddsoddiad cyhoeddus rhwng addysg lawn amser ac addysg rhan amser.
- Cydbwysedd teg rhwng buddsoddiad gan fyfyrwyr a buddsoddiad cyhoeddus, gan ganolbwyntio cymorth ychwanegol (e.e. y grant cyrsiau) lle y mae ei angen fwyaf.
- Dylid cynnwys costau ychwanegol gwaith recriwtio a chadw ehangu mynediad wedi'i dargedu o fewn y system gyllido.
- Dylid ystyried y syniad o Gyfrif Dysgu Personol neu Gyfrif Gyrfa a allai ddefnyddio arian cyhoeddus i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer buddsoddiadau gan unigolion mewn perthynas â dysgu a datblygu gyrfa. Dylid darparu adolygiadau canol gyrfa i oedolion hefyd er mwyn ystyried eu hanghenion sgiliau a'u cynlluniau gyrfa.
- Dylid diwygio'r polisi ELQ ar gyfer cael benthyciadau er mwyn sicrhau ei fod yn fwy buddiol i'r economi a'r agenda polisi sgiliau. Gallai hyn gynnwys eithriadau ar gyfer myfyrwyr ELQ mewn meysydd pwnc â blaenoriaeth a/neu fynediad ar sail prawf modd i fenthyciadau.

⁵ Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cyllido Addysg Uwch* (Mai 2014), tud. 33. Ar gael yn <http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD9755-R%20-%20Report%20of%20the%20Finance%20Committee%20-%20Higher%20Education%20Funding-03062014-256437/cr-ld9755-r-e-Cymraeg.pdf>

3. Ehangu cyfleoedd i astudio'n rhan amser mewn cyflogaeth

Mae darpariaeth AU rhan amser yn cyfrannu at ffyniant economaidd drwy greu cyfleoedd i unigolion wella eu sgiliau a thrwy helpu cyflogwyr a'r farchnad lafur ehangach drwy gyfrannu at gynyddu sgiliau'n gyffredinol. Mae dysgu gydol oes a datblygu'r gweithlu yn dod yn bwysicach fyth wrth eu hystyried yn erbyn y newidiadau demograffig a ddisgwylir yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhan fwyaf o weithlu Cymru yn y 2020au eisoes yn gweithio⁶ a bydd angen opsiynau dysgu hyblyg arnynt er mwyn cyflawni'r lefelau sgiliau uwch sydd eu hangen i sicrhau twf economaidd. Ni allwn ddibynnu ar yr hyn a fydd yn fewnlif o raddedigion newydd o raglenni llawn amser sy'n lleihau. Canfu'r adroddiad 'Mae'n Hen Bryd' a luniwyd yn 2014 gan NUS Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru⁷ fod 72% o fyfyrwyr rhan amser mewn cyflogaeth a'r rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd am astudio'n rhan amser oedd gwella rhagolygon ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Dim ond os oes opsiynau dysgu hyblyg a chymorth parod ar gael y gellir cyflawni hyn.

Rydym yn credu yn y canlynol

- Mae addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu sgiliau lefel uwch, a dylid datblygu hyn fel partneriaeth rhwng y llywodraeth a chyflogwyr.
- Nid yw dull gweithredu yn seiliedig ar gymhwyster lefel gradd yn unig bob amser yn addas ar gyfer gofynion cyflogwyr a noda cyflogwyr ac undebau llafur eu bod yn gwerthfawrogi dulliau gweithredu modiwlaid mewn perthynas â gwella sgiliau'r gweithlu a dysgu sgiliau newydd iddynt. Mae cyflogwyr hefyd yn gwerthfawrogi dysgu hyblyg o bell lle nad yw'n bosibl rhyddhau staff i astudio yn ystod amser gwaith.
- Nid yw trefniadau cyllido myfyrwyr yn ymateb mor hyblyg ag y gallent i ddiffygion sgiliau.
- Mae'r gallu i wella sgiliau a dysgu sgiliau newydd yn hanfodol i'r economi hyd yn oed i'r rheini y gallai fod ganddynt gymhwyster presennol eisoes.

Rydym yn argymhell y canlynol

- Dylai mentrau ailhyfforddi Llywodraeth Cymru gynnwys Y Brifysgol Agored a / neu ddysgu o bell fel opsiynau er mwyn galluogi pobl i ail-ymuno â'r farchnad lafur ac ailhyfforddi ar yr un pryd.
- Dylid cynnig cymhellion i gyflogwyr a sefydliadau cyflogwyr i ymgysylltu â phrosesau gwella sgiliau a dysgu seiliedig ar waith. Rydym yn croesawu'r egwyddor o fuddsoddi ar y cyd, fel y'i nodir yng nghynllun gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru⁸, ac rydym o'r farn y gallai gael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth a chyflogwyr yng Nghymru.
- Dylid sicrhau bod rhaglen gytbwys o Brentisiaethau ar gael yn eang i bob oedolyn, nid dim ond unigolion o dan 25 oed. Dylid neilltuo cyllid canlyniadol

⁶ Nododd Adolygiad Sgiliau Leitch a luniwyd ar ran Llywodraeth y DU yn 2006 ar y pryd fod 70 y cant o'n gweithlu yn 2020 eisoes wedi cwblhau eu haddysg orfodol. *Adolygiad Sgiliau Leitch* (2006), tud 1. Ar gael yn [http://www.delni.gov.uk/leitch_finalreport051206\[1\]-2.pdf](http://www.delni.gov.uk/leitch_finalreport051206[1]-2.pdf)

⁷ NUS Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru, *Mae'n Hen Bryd: Astudiaeth o Fyfyrrwyr Rhan Amser a'u Profiadau yng Nghymru* (2014). Ar gael yn <http://www.open.ac.uk/wales/sites/www.open.ac.uk.wales/files/files/ecms/wales-pa/web-content/It's-About-Time-Cymraeg.pdf>

⁸ Llywodraeth Cymru, *Cynllun gweithredu sgiliau* (2014). Ar gael yn <http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?lang=cy>

Cymru o ardoll hyfforddiant Llywodraeth y DU a'i wario ar gynnig prentisiaethau yng Nghymru.

- Dylid ystyried sut y gallai gwell cydweithrediad rhwng AB ac AU a llwybrau dilyniant cliriach ategu'r agenda gwella sgiliau a dysgu sgiliau newydd.
- Dylid sicrhau bod costau dysgu hyblyg rhan amser yn parhau'n fforddiadwy er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth hon ar gael i'r rhai sy'n cael cymorth drwy gyd-fuddsoddi a'r rhai sy'n awyddus i ariannu eu hunain.
- Dylid rhoi cymorth i sefydliadau ehangu eu harlwy i gynnwys cyrsiau bach byrrach ac opsiynau dysgu hyblyg.
- Dylid ystyried y syniad o fwrsariau ar gyfer pynciau blaenoriaeth a dylai opsiynau astudio rhan amser yn ogystal ag opsiynau astudio llawn amser fod yn gymwys.
- Dylid ystyried y syniad o Gyfrif Dysgu Personol neu Gyfrif Gyrfa a allai ddefnyddio arian cyhoeddus i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer buddsoddiadau gan unigolion mewn perthynas â dysgu a datblygu gyrfa. Dylid hefyd darparu adolygiadau canol gyrfa i oedolion er mwyn ystyried eu hanghenion sgiliau a'u cynlluniau gyrfa.

4. Cefnogaeth i fentrau ehangu mynediad

Mae'r Brifysgol Agored yn gweithredu polisi mynediad agored ac nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd ar lawer o'n cyrsiau. Mae dros draean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn dod atom heb gymwysterau mynediad safonol i brifysgol ac mae dros ugain y cant o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn dod o gategoriâu ehangu mynediad CCAUC. Mae gan ddarpariaeth rhan amser ran bwysig i'w chwarae wrth ehangu mynediad i AU, er enghraifft, drwy gynnig cyfleoedd i gyflogeion mewn cyflogaeth cyflog isel a sgil isel ac i drigolion o fewn cymunedau daearyddol difreintiedig.

Rydym yn credu yn y canlynol

- Dylid targedu strategaethau ac ymgyrchoedd i ehangu mynediad i addysg uwch at oedolion yn ogystal ag unigolion sy'n gadael ysgol.
- Gall cyrsiau bach, byrrach fod yn gam cyntaf pwysig i mewn i AU i ddysgwyr ond mae'r pwyslais presennol ar gymwysterau a'r isafswm dwysedd astudio er mwyn cael benthyciad yn lleihau'r galw gan fyfyrwyr am fodiwlau byr sy'n cynnig llai na 30 o gredydau ac yn golygu nad yw sefydliadau yn awyddus i gynnig modiwlau o'r fath.
- Mae'r premiwm ehangu mynediad yn elfen angenrheidiol o'r gyfundrefn gyllido gan ei fod yn targedu buddsoddiad lle y mae ei angen ac yn cymell sefydliadau i recriwtio o'r grwpiau targed perthnasol.
- Mae'r mesurau presennol ar gyfer ehangu mynediad yn rhy gul i ddiwallu anghenion tlodi gwledig yng Nghymru.
- Mae'n bosibl y caiff y newidiadau arfaethedig i Lwfansau Myfyrwyr Anabl (DSA) effaith anghymesur ar fyfyrwyr Y Brifysgol Agored y gall fod ganddynt anghenion gwahanol ac y gall fod angen cymorth gwahanol iawn arnynt i reoli eu dysgu o gymharu â myfyrwyr mewn SAUau ar gampws.
- Nid y gyfundrefn bresennol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o helpu myfyrwyr o'r incymau isaf i ymgymryd ag AU, yn enwedig o ran darpariaeth rhan amser.

Rydym yn argymhell y canlynol

- Dylid cadw'r premiwm ehangu mynediad a delir fesul pen i sefydliadau.

- Dylid gwneud mwy i hyrwyddo'r llwybrau amrywiol a'r llwybrau amgen i AU ar gyfer pobl dros 25 oed a allai fod wedi methu'r llwybrau confensiynol y tro cyntaf.
- Dylid rhoi cymorth i sefydliadau ehangu eu harlwy i gynnwys cyrsiau bach byrrach.
- Dylid cadw grantiau presennol i fyfyrwyr ymgymryd â chyrsiau rhan amser.
- Dylid rhoi ffocws newydd i'r pecyn cymorth a chynhaliaeth cyffredinol i fyfyrwyr i ganolbwyntio ar y rheini sydd fwyaf mewn angen.
- Dylai unrhyw newidiadau i'r Lwfans Myfyrwyr Anabl ystyried anghenion gwahanol myfyrwyr sy'n astudio gartref drwy ddulliau dysgu o bell yn hytrach nag ar gampws a rhoi cymorth priodol iddynt barhau i wneud hynny'n effeithiol.
- Dylid datblygu darpariaeth addysg ôl-16 fwy integredig sy'n annog llwybrau dilyniant ac yn cynnig opsiynau cyflwyno hyblyg.

5. Gwella gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar opsiynau astudio'n rhan amser

Rydym yn credu yn y canlynol

- Mae'n bosibl bod diffyg ymwybyddiaeth o'r benthyciadau sydd ar gael i fyfyrwyr rhan amser a mwy o awydd i osgoi dyled ymhlith myfyrwyr aeddfed yn ffactorau sy'n cyfrannu at unrhyw ostyngiad canfyddedig yn y galw am ddarpariaeth rhan amser.
- Mae'r gwasanaethau gyrfaoedd presennol sy'n cwmpasu Cymru gyfan yn canolbwyntio'n sylweddol ar bobl ifancach. Mae hyn yn golygu bod diffyg gwybodaeth, cyngor ac arweiniad pwysig i fyfyrwyr aeddfed sydd eisoes yn astudio a darpar fyfyrwyr aeddfed.
- Ni ellir diwallu anghenion sgiliau Cymru drwy'r boblogaeth ifancach yn unig. Mae angen i ni ystyried gwella sgiliau ac ailhyfforddi ein gweithlu presennol. Mae gwasanaeth gyrfaoedd sy'n darparu ar gyfer pob oedran yn hanfodol er mwyn diwallu'r angen hwn.
- Nid yw myfyrwyr rhan amser yn cael chwarae teg o bell ffordd mewn perthynas â Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am fenthyciadau ar gyfer astudio'n rhan amser yn ddiweddarach na'r dyddiad cau ar gyfer astudio'n llawn amser a dim ond all-lein ar ffurf copi caled y gall ymgeiswyr rhan amser (yng Nghymru) wneud cais. Yn arbennig, caiff myfyrwyr dysgu o bell - sy'n aml yn gwneud penderfyniad cynnar wrth ymgymryd â'u hastudiaethau - eu hannog i beidio â pharhau ymhellach â'u cais o ganlyniad i achosion hir o oedi rhwng cofrestru am gwrs a gallu gwneud cais am fenthyciad.

Rydym yn argymhell y canlynol

- Dylid hyrwyddo cyfleoedd AU rhan amser fel rhan o'r arlwy addysg gyffredinol yng Nghymru.
- Dylai Gyrfa Cymru ystyried sut i ddarparu ar gyfer dull gweithredu pob oedran mewn perthynas ag arweiniad gyrfaoedd gan weithio gyda sefydliadau partner.
- Dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru drin dysgwyr rhan amser yn deg ac ar sail gyfartal drwy groesawu ceisiadau ar gyfer benthyciadau rhan amser ar yr un pryd â cheisiadau llawn amser a dylai'r ddau fod ar gael i'w cwblhau ar-lein. Dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru a chyrrff perthnasol eraill hefyd (e.e. Gyrfa Cymru) roi'r un faint o gyhoeddusrwydd i fenthyciadau rhan amser ag i fenthyciadau llawn amser.

6. Benthyciadau ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig

Rydym yn credu yn y canlynol

- Mae cyfleoedd i ôl-raddedigion yn bwysig er mwyn sicrhau y gall Cymru ddiwallu anghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol.
- Dylai cyfleoedd astudio i ôl-raddedigion fod yr un mor hygyrch i bawb sy'n awyddus i allu manteisio arnynt, os ydynt yn gymwys i wneud hynny.

Rydym yn argymhell y canlynol

- Dylai Llywodraeth Cymru gynnig benthyciadau astudio i ôl-raddedigion sydd ar gael i bob oedran ac ar gyfer pob dull astudio, gan gynnwys dysgu o bell.

7. Annog arloesedd digidol mewn addysg uwch a dysgu ar-lein

Rydym yn credu yn y canlynol

- Mae technolegau a datblygiadau arloesol newydd megis cyrsiau ar-lein agored anferth (MOOC), yn arbennig llwyfan Y Brifysgol Agored, FutureLearn, yn alluogwyr digidol mawr.
- Mae amgylcheddau dysgu anffurfiol, megis cyrsiau ar-lein agored anferth, yn ffordd gost-effeithiol o ddatrys diffygion o ran sgiliau a chynnig cyfleoedd dysgu. Gallant hefyd fod yn ased allweddol i gyflogwyr eu defnyddio fel llwyfannau ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Rydym yn argymhell y canlynol

- Dylai Llywodraeth Cymru a phrifysgolion yng Nghymru weithredu argymhellion 'Agored ac Ar-lein', sef adroddiad y Gweithgor Dysgu Digidol Ar-lein. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaeth i godi ymwybyddiaeth o bosibilrwydd dysgu ar-lein er mwyn cefnogi datblygiad economaidd.
- Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gefnogi'r Brifysgol Agored fel ased addysg allweddol drwy hyrwyddo ei llwyfannau dysgu ar-lein a'i hystyried yn bartner allweddol yn y gwaith o ddarparu hyfforddiant a datblygiad ar-lein.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Michelle Matheron, Rheolwr Polisiâu a Materion Cyhoeddus, Y Brifysgol Agored yng Nghymru Michelle.Matheron@open.ac.uk
www.open.ac.uk/wales